1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Arfarniad o'r ffordd y mae ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn gweithredu arweiniad ar wahardd

Mehefin 2007

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (o Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **2**

Prif ganfyddiadau **4**

Argymhellion **6**

Canfyddiadau'r arolwg **7**

Ymwybyddiaeth a defnydd AALlau ac ysgolion o arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wahardd 7
Polisïau AALlau ac ysgolion ar wahardd 7
Strategaethau i ostwng gwaharddiadau 8
Ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol 9
Duliau o reoli ymddygiad 9
Llwybrau dysgu amgen 11
Cymorth arbenigol ychwanegol 12
Defnyddio data 12
Sicrhau gwelliannau pellach 12

Gweithredu'r prif newidiadau a gyflwynwyd yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 1/2004: Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion **14**

Hawl pob disgybl 11 oed neu hŷn i apelio yn erbyn gwaharddiad 14
Darpariaeth i gael clywed barnau disgyblion 14
Gwaharddiadau amser cinio 14
Gwaredu'r gofyniad am bwyllgorau disgyblu ar gyfer rhai gwaharddiadau cyfnod penodol 14
Paneli apeliadau annibynnol (PAA) 15
Cyflwyno trydydd opsiwn ar gyfer paneli apeliadau 15
Cyflwyno'r amod na ellir gwydroi gwaharddiadau 15
Arian i ddilyn disgyblion a waherddir 15
Newidiadau mewn trefniadau ar gyfer darparu addysg amser llawn i ddisgyblion a waherddir 16

Cyflwyniad

1 Diben y cyngor hwn yw rhoi tystiolaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru am bam or dda y mae ysgolion ac AALlau yn gweithredu'r arweiniad ar wahardd[1] (Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 1/2004). Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am arfer dda o ran rheoli ymddygiad, sy'n arwain at ostwng gwaharddiadau.

2 Mae'r sail dystiolaeth yn cynnwys:

- dadansoddiad o ddata ar waharddiadau o ysgolion yng Nghymru;
- ymweliadau â naw awdurdod addysg lleol (AALl); ac
- ymweliadau â 13 ysgol uwchradd, un ysgol gynradd ac uned cyfeirio disgyblion. Mae'r ysgolion a'r AALlau a ddewiswyd ar gyfer ymweliadau yn cynnwys sampl o ardaloedd gwledig a threfol â lefelau amrywiol o amddifadedd cymdeithasol ledled Cymru.

3 Enwebwyd pob ysgol yr ymwelwyd â hi gan ei AALl yn bennaf oherwydd ei harfer dda o ran gostwng gwaharddiadau. Roedd mwyafrif yr AALlau ac ysgolion a ddewiswyd naill ai wedi gostwng nifer y disgyblion a waharddwyd o'r ysgol neu heb gael unrhyw waharddiadau parhaol rhwng 2002/2003 a 2004/2005. Dewiswyd tri o'r AALlau gan fod eu cyfraddau gwahardd ymhlith yr uchaf yng Nghymru yn 2004/2005.

4 Prin iawn oedd y gwaharddiadau parhaol a gafodd yr ysgolion yn yr arolwg rhwng 2002/2003 a 2004/2005, os cawsant unrhyw waharddiadau parhaol o gwbl. Roedd pedair o'r ysgolion hyn wedi gostwng nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol hefyd yn yr un cyfnod.

5 Roedd dwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi gostwng nifer y gwaharddiadau parhaol ond wedi cynyddu nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol.

6 Ymwelwyd â dwy ysgol oherwydd y cynnydd yn nifer y gwaharddiadau parhaol rhwng 2002/2003 a 2004/2005.

[1] Ystyr gwaharddiad yw pan fo ysgol yn dweud wrth ddisgybl i beidio â mynychu naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol.

Cefndir

7 Cynyddodd nifer y gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol ledled Cymru rhwng blynyddoedd academaidd 2003/2004 a 2004/2005. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael[2] ar wahardd yn nodi:

- yn 2004/2005, bod 465 o waharddiadau parhaol, 45 yn fwy nag yn 2003/2004. Dyma gynnydd o dros 10%; a
- bod nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi cynyddu o 16,500 yn 2003/2004 i fwy na 20,200 yn 2004/2005. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o dros 18%.

8 Mae gwaharddiadau parhaol wedi dangos cynnydd cyffredinol o 337 ym 1999/2000 i 465 yn 2004/2005, sef cynnydd bron 38%. Yn yr un cyfnod, mae gwaharddiadau cyfnod penodol wedi cynyddu o 8,200 i fwy na 20,200, sef cynnydd o bron 150%[3].

9 Yn sgil Deddf Addysg 2002, bu Cymru, am y tro cyntaf, yn gallu datblygu ei deddfwriaeth ei hun ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Cyhoeddwyd arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru[4] ym mis Ionawr 2004. Mae hyn yn adlewyrchu'r rheoliadau perthnasol, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2004 ac a gyflwynodd ddarpariaethau unigryw i Gymru.

10 O dan Adran 52(4) Deddf Addysg 2002, mae'n rhaid i benaethiaid, athrawon sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion (UCD), cyrff llywodraethol, AALlau a phaneli apeliadau annibynnol roi ystyriaeth i'r arweiniad a'r gweithdrefnau wrth wneud penderfyniadau am wahardd a gweinyddu'r broses wahardd ac apeliadau. Mae'r arweiniad yn disodli Pennod 6 ac Atodiad E o Gylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 3/99: Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol. Disgwylir y bydd y rheiny y soniwyd amdanynt yn flaenorol yn dilyn yr arweiniad oni fyddant yn penderfynu bod rheswm da i beidio â gwneud.

11 Dyma'r prif newidiadau i'r arweiniad a'r gweithdrefnau:

- gostwng yr oedran y gall disgybl apelio yn erbyn ei waharddiad ei hun o 18 i 11 oed;
- cyflwyno'r hawl i gael clywed barnau pob disgybl a waherddir ym Mhwyllgor Disgyblu Disgyblion y Corff Llywodraethol a gwrandawiadau Panel Apeliadau Annibynnol;
- rhaid cyfrif gwaharddiadau amser cinio yn chwarter diwrnod ac maent yn cyfrif tuag at hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad;
- gwaredu'r gofyniad awtomatig i bwyllgorau disgyblu gyfarfod ar gyfer gwaharddiadau rhwng 6 a 15 diwrnod;

[2] Rhyddhad Cyntaf Ystadegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru SDR 32/2006
[3] Rhyddhad Cyntaf Ystadegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 32/2006
[4] Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Cylchlythyr rhif 1/2004

- newidiadau yng nghyfansoddiad paneli apeliadau annibynnol;

- cyflwyno trydydd opsiwn ar gyfer paneli apeliadau i benderfynu gwyrdroi gwaharddiad ond nid adfer y disgybl i'r ysgol wreiddiol (i'w ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol);

- cyflwyno amod na ellir gwyrdroi gwaharddiadau ar sail methiant i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad gweithdrefnol yn unig;

- newidiadau mewn trefniadau ar gyfer arian i ddilyn disgyblion a waharddwyd; a

- newidiadau mewn trefniadau ar gyfer darparu addysg amser llawn i ddisgyblion a waharddwyd.

Prif ganfyddiadau

12 Mae AALlau ac ysgolion yn gwneud defnydd da o'r arweiniad ar wahardd i lywio eu polisïau ar wahardd, gan gynnwys rheoli a gwella ymddygiad disgyblion a gostwng nifer y gwaharddiadau.

13 Mae AALlau ac ysgolion yn dilyn yr arweiniad statudol yn agos ac yn rhoi'r gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer gwahardd disgyblion. Mae bron pob ysgol ac AALl yn rhoi'r trefniadau newydd ar waith a gyflwynwyd yn y ddogfen arweiniad[5] fel y bwriadwyd.

14 Dim ond ar ôl rhoi cynnig ar bob opsiwn arall y mae llawer o ysgolion yn gwahardd disgyblion, ond mae rhai ysgolion yn rhy barod i wahardd disgyblion o hyd.

15 Mae niferoedd y gwaharddiadau parhaol yn isel mewn mwyafrif o AALlau ledled Cymru. Yn aml, mae ysgolion wedi lleihau niferoedd y gwaharddiadau hyn drwy gynnal neu gynyddu niferoedd y gwaharddiadau cyfnod penodol. Mae ambell ysgol wedi gostwng niferoedd eu gwaharddiadau cyfnod penodol yn sylweddol yn ogystal â'u gwaharddiadau parhaol. Rhoddwyd llawer o strategaethau effeithiol yn eu lle i gefnogi disgyblion a allai fod wedi'u gwahardd yn flaenorol.

16 Mae llawer o ysgolion, gyda chymorth eu AALlau, yn gwneud defnydd da o ystod eang o strategaethau i wella ymddygiad a chwtogi ar waharddiadau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion â strategaethau llwyddiannus:

- yn cyhoeddi polisi ysgol clir ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth disgyblion y mae'r holl staff yn ei gefnogi a'i weithredu'n gyson;
- yn hyrwyddo dulliau effeithiol o reoli ymddygiad i gefnogi polisi'r ysgol ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth;
- yn cynnig cwricwlwm sy'n cynnwys ystod o lwybrau dysgu amgen[6] i fodloni anghenion disgyblion unigol;
- yn sicrhau cefnogaeth ac arbenigedd AALl i helpu i ddarparu llwybrau dysgu na all yr ysgol eu cynnig heb gymorth, ac i sicrhau staff arbenigol ychwanegol ac adnoddau eraill ar safle'r ysgol;
- yn ymgymryd ag ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol, gan gynnwys sefydlu grwpiau magwraeth[7]; ac
- yn defnyddio data'n effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion yn benodol yn eu gwaith ysgol, eu presenoldeb a'u hymddygiad; yn nodi problemau posibl yn unrhyw un o'r meysydd hyn; ac
- yn monitro tueddiadau yn y meysydd hyn.

[5] Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Cylchlythyr rhif 1/2004
[6] Cyrsiau a gweithgareddau dysgu sy'n wahanol i'r cwricwlwm a ddarperir i fwyafrif y disgyblion.
[7] Grwpiau sy'n helpu disgyblion a'u teuluoedd i ddatblygu gwell agweddau at ddysgu a gwella cymorth ar gyfer dysgu gartref.

17 Er bod rhai o'r AALlau dan sylw wedi cynnal symudiadau wedi'u rheoli[8], nid oedd un ohonynt wedi cwblhau a gweithredu protocolau ar gyfer hyn.

[8] Symudiad wedi'i reoli yw trosglwyddo disgybl, sydd mewn perygl cael ei wahardd yn fuan, o un ysgol i'r llall, o dan brotocol a gytunwyd ymlaen llaw gan ysgolion yn yr ardal.

Argymhellion

18 Er mwyn gostwng nifer y disgyblion a waherddir o ysgolion:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 archwilio cyflwyno rheoliadau i alluogi awdurdodau addysg lleol i osod cosbau, gan gynnwys cosbau ariannol, ar ysgolion sy'n rhy barod i wahardd disgyblion; a

A2 gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Estyn ar reoli ymddygiad[9].

Dylai awdurdodau addysg lleol:

A3 fel mater brys, cwblhau a gweithredu protocolau ar gyfer symudiadau wedi'u rheoli rhwng ysgolion uwchradd i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd;

A4 rhoi staff arbenigol ychwanegol ac adnoddau eraill mewn ysgolion lle nodwyd bod angen cymorth ymddygiadol;

A5 cynyddu nifer ac ystod y grwpiau magwraeth i fodloni anghenion plant a theuluoedd y mae angen y math hwn o gymorth arnynt;

A6 sicrhau bod gan unedau cyfeirio disgyblion ddigon o allu ac arbenigedd i ddarparu lleoliadau tymor byr, rhan-amser i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd;

A7 sicrhau bod pob disgybl a waherddir yn cael addysg amser llawn sy'n arwain at gymwysterau achrededig; a

A8 gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Estyn ar reoli ymddygiad heriol[9].

Dylai ysgolion:

A9 weithredu mesurau i leihau eu cyfraddau gwahardd fel eu bod o leiaf yr un fath â chyfraddau ysgolion sydd wedi cyflawni'r gostyngiadau mwyaf;

A10 fel mater brys, cydweithredu â'u AALl ac ysgolion eraill i gytuno a gweithredu protocolau ar gyfer symudiadau wedi'u rheoli;

A11 gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Estyn ar reoli ymddygiad heriol[9].

[9] Ymddygiad yng Nghymru: Arfer dda wrth reoli ymddygiad heriol (Estyn, Mehefin 2006)

Canfyddiadau'r arolwg

Ymwybyddiaeth a defnydd AALlau ac ysgolion o arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wahardd

19 Mae pob AALl ac ysgol yn ymwybodol o arweiniad statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr 1/2004: Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.

20 Mae AALlau yn defnyddio'r arweiniad yn dda i lywio eu cynllun cymorth ymddygiadol, eu strategaeth mynediad a chynhwysiant, ac agweddau perthnasol eraill ar eu Cynllun Addysg Sengl (CAS). Mae AALlau hefyd yn defnyddio'r arweiniad yn briodol yn sail ar gyfer y cyngor a'r cymorth y maent yn cynnig i ysgolion. Mae swyddogion AALl sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor disgyblu a gynhelir i ystyried gwaharddiadau unigol yn defnyddio'r arweiniad yn helaeth i sicrhau bod y cyfarfodydd yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yng Nghylchlythyr 1/2004.

21 Mae ysgolion yn defnyddio'r arweiniad yn dda i lywio ac arwain eu polisïau a'u gweithdrefnau ar gyfer gwella ymddygiad, disgyblaeth ac agweddau ar gynhwysiant. Mae bron pob ysgol yn dilyn yr arweiniad yn agos wrth roi'r gweithdrefnau ar gyfer gwahardd ar waith. Fodd bynnag, mewn ambell ysgol, mae niferoedd y gwaharddiadau yn afresymol o uchel. Mae'r ysgolion hyn yn rhy barod i wahardd disgyblion, er gwaethaf y datganiad ym mharagraff 1.1 o'r arweiniad[10].

Polisïau AALl ac ysgolion ar wahardd

22 Nid oes polisi penodol ar wahardd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae cynlluniau cymorth ymddygiadol yng Nghynlluniau Addysg Sengl (CASau) yr awdurdodau yn cynnwys gwybodaeth a data ystadegol ar wahardd, gan gynnwys targedau ar gyfer lleihau nifer y gwaharddiadau. Mae'r cynlluniau cymorth ymddygiadol hyn yn adlewyrchu'n briodol y gofynion a nodwyd yn yr arweiniad statudol. Mae lleiafrif o gynlluniau a pholisïau AALlau yn cyflenwi ac yn cryfhau'r arweiniad statudol ar wahardd, yn hytrach na'i ailadrodd yn unig. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae swyddogion AALl yn briodol yn paratoi polisïau, cynlluniau ac arweiniad gweithredol drafft cychwynnol ac yn eu cyflwyno i grwpiau ymgynghori o benaethiaid ar gyfer sylwadau a datblygu pellach. Yna gall y grwpiau hyn sicrhau bod ysgolion yn deall ac yn gweithredu'r polisïau a'r dogfennau arweiniad fel y bwriadwyd. Yn briodol, mae AALlau yn adolygu a diwygio eu polisïau yn rheolaidd, fel arfer bob blwyddyn.

23 Mae polisïau ar gynhwysiant gan bob ysgol yr ymwelwyd â hi. Yn briodol, mae'r polisïau hyn yn cynnwys eu polisïau ar wahardd, fel arfer yn rhan o'u polisi ymddygiad a disgyblaeth. Mae'r polisïau hyn yn cael eu hadolygu bob blwyddyn fel arfer. Mewn tua hanner o'r ysgolion dan sylw, mae penaethiaid yn dirprwyo

[10] Dywed paragraff 1.1:

"Dylid penderfynu gwahardd disgybl dim ond:
a) mewn ymateb i achosion difrifol o dorri polisi ymddygiad yr ysgol; a
b) phe byddai caniatáu i'r disgybl barhau yn yr ysgol yn gwneud niwed difrifol i addysg neu les y disgybl neu eraill yn yr ysgol."

cyfrifoldeb am ddrafftio cychwynnol ac adolygu'r polisïau hyn i grŵp cynrychioliadol bach o staff. Yng ngweddill yr ysgolion, maent yn dyrannu'r cyfrifoldeb hwn i bwyllgor y corff llywodraethol. Mae'r ddau ddull yn briodol ac yn arwain at lunio polisïau da. Dim ond pan gânt gymorth cyson gan holl staff a llywodraethwyr yr ysgol y gall ysgolion weithredu'r polisïau hyn yn effeithiol.

24 Mewn llawer o ysgolion, mae pennaeth cynorthwyol yn gyfrifol am arwain pob agwedd ar wahardd. Yng ngweddill yr ysgolion, mae'r pennaeth yn cymryd y cyfrifoldeb hwn. Dim ond dwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw sydd wedi enwi llywodraethwr i arwain o ran gwaharddiadau. Yn briodol, mae'r rhan fwyaf o AALlau naill ai wedi enwi swyddog neu dîm bach o swyddogion sydd, gyda'i gilydd, yn monitro gwaith ysgolion mewn perthynas â rheoli ymddygiad, gan gynnwys cyfraddau gwahardd. Ar y cyfan, mae'r swyddogion hyn yn rhoi cyngor ac arweiniad da ar nodweddion technegol y broses wahardd a'r strategaethau ar gyfer gostwng y niferoedd a waherddir.

25 Yn gyffredinol, mae polisïau ysgolion ar wahardd yn adlewyrchu'r arweiniad statudol yn dda. Mae bron pob ysgol wedi ymrwymo'n briodol i leihau nifer y gwaharddiadau parhaol i ddim, os yw'n bosibl. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol wedi ymrwymo i leihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol. Yn amhriodol, nid yw rhai ysgolion wedi nodi hyn fel amcan na tharged perthnasol mewn unrhyw ddogfen. Er mwyn dileu neu leihau nifer y gwaharddiadau parhaol, mae'r ysgolion hyn yn ystyried bod angen defnyddio mwy o waharddiadau cyfnod penodol weithiau fel cosb arall, llai difrifol.

26 Mae ysgolion sy'n ystyried gwahardd disgybl yn gorfod pwyso a mesur costau a manteision eu camau yn ofalus. Mae'n rhaid iddynt ystyried y cydbwysedd rhwng effaith y gwaharddiad ar y disgybl dan sylw a'r effaith ar ddisgyblion eraill a staff os caniateir i'r disgybl barhau i fynychu'r ysgol. Yn amhriodol, mae ambell ysgol yn credu bod ganddynt yr hawl i gymhwyso gwaharddiadau cyfnod penodol fel y mynnant er mwyn cynnal safonau uchel o ymddygiad a disgyblaeth. Nid ydynt yn dilyn yr arweiniad yn hyn o beth.

Strategaethau i ostwng gwaharddiadau

27 Mae cyhoeddiad diweddar Estyn "Ymddygiad yng Nghymru: Arfer dda wrth reoli ymddygiad heriol"[11] yn adrodd bod ysgolion, gyda chefnogaeth eu AALlau, yn defnyddio ystod eang o strategaethau i wella ymddygiad a chwtogi ar waharddiadau. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at dystiolaeth gref o ddefnyddioldeb y strategaethau hyn wrth wella ymddygiad a lles disgyblion. Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn tueddu adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau penodol yr ysgol unigol a natur ei disgyblion. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion uwchradd yn defnyddio rhai strategaethau cyffredin, yn benodol os yw maint a natur problemau ymddygiad eu disgyblion yn heriol dros ben.

[11] Estyn, Mehefin 2006

28 Gellir grwpio'r strategaethau a welsom sydd wedi cael yr effaith fwyaf o ran cwtogi ar waharddiadau mewn pedwar categori bras:

- ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol gyda disgyblion oedran ysgol gynradd a'u teuluoedd;
- addasu a gloywi dull yr ysgol o reoli ymddygiad;
- cynnig llwybrau dysgu amgen i fodloni anghenion disgyblion unigol; a
- sicrhau cymorth arbenigol ychwanegol ar safle'r ysgol.

Ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol

29 Mae ambell ysgol uwchradd, gyda chymorth eu hawdurdod lleol, wedi buddsoddi llawer iawn o amser ac ymdrech yn gweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion oedran ysgol gynradd. Mae'r disgyblion a dargedir ar gyfer cymorth yn tueddu bod y rheiny sy'n dangos anawsterau dysgu ac ymddygiad, yn bennaf oherwydd anaeddfedrwydd emosiynol y disgyblion a diffyg cymorth cyson, sefydlog yn y cartref. Mae un AALl yn ne Cymru wedi sefydlu grwpiau magwraeth effeithiol dros ben i weithio gyda niferoedd bach o ddisgyblion a'u teuluoedd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol gyfun leol. Mae'r grwpiau hyn yn gweithio i gefnogi'r teulu a'r disgybl, gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau gwell agweddau ac amodau ar gyfer dysgu, a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion a'u rhieni neu ofalwyr. Mae un ysgol uwchradd mewn ardal drefol â lefelau arbennig o uchel o amddifadedd cymdeithasol wedi sefydlu cysylltiadau da iawn â staff yr ysgolion cynradd yn ei dalgylch er mwyn nodi'r disgyblion yn yr ysgolion hynny sy'n dangos yr ymddygiad mwyaf heriol. Mae'r fenter hon wedi galluogi staff yn yr ysgol uwchradd i hybu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r problemau a ddangosir gan y disgyblion a nodir. Yn ogystal, mae staff yn trafod materion perthnasol â rhieni disgyblion, ac yn gwneud cynlluniau addas ar gyfer cyfnod pontio'r disgyblion o'r ysgolion cynradd. Mae'r strategaethau hyn wedi cael effaith o ran gostwng gwaharddiadau yn yr ysgolion dan sylw.

Dulliau o reoli ymddygiad

30 Yr ysgolion sydd wedi llwyddo fwyaf i ostwng gwaharddiadau drwy reoli ymddygiad disgyblion yw'r rheiny sydd â pholisi clir ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth y mae'r holl staff yn ei gefnogi a'i weithredu'n gyson. Yn yr ysgolion hyn, mae'r polisi disgyblu yn rhoi pwyslais priodol ar wobrwyo ymddygiad da ond hefyd yn nodi'r cosbau y dylid eu cymhwyso ar adegau penodol, er enghraifft i gyd-fynd â difrifoldeb y camymddwyn, neu pan nad yw cosbau llai difrifol wedi arwain at welliant. Sicrheir bod y polisi a'i oblygiadau yn gyfarwydd i'r holl staff, disgyblion a rhieni.

31 Mae llawer o'r ysgolion sydd wedi sicrhau'r gostyngiad mwyaf yn nifer y gwaharddiadau wedi gwneud hynny drwy newid agweddau staff at reoli ymddygiad disgyblion. Yn aml, mae hyfforddiant mewn swydd wedi helpu i newid agweddau staff. Mewn ambell ysgol, newid uwch reolwyr sydd wedi sbarduno newid sylweddol mewn agweddau staff. Mae un ysgol wedi llwyddo drwy ennill cefnogaeth staff am yr egwyddorion sy'n pwysleisio bod lles y plentyn yn bwysig dros ben. Mae'r

egwyddorion hyn yn sail i'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghylchlythyr 1/2004.

32 Mae lleiafrif o ysgolion â niferoedd uchel o ddisgyblion ag anawsterau ymddwyn wedi llwyddo i leihau nifer y gwaharddiadau. Maent wedi gwneud hyn drwy wneud defnydd effeithiol o systemau ar gyfer olrhain pob agwedd ar gynnydd pob disgybl, gan gynnwys cyflawniad academaidd, presenoldeb ac ymddygiad. Mae'r goreuon o'r systemau hyn yn darparu dadansoddiad cyflym, hawdd ei ddeall o dueddiadau dros amser sy'n galluogi ysgol i nodi problemau posibl.

33 Mae ambell ysgol wedi gwneud defnydd da o 'neilltuo mewnol'[12] yn lle gwaharddiad cyfnod penodol. Mae'r nodweddion da a welwyd yn yr ysgolion hyn yn dangos bod neilltuo mewnol yn fwyaf effeithiol:

- pan gaiff ei oruchwylio gan staff ag arbenigedd a/neu hynafedd priodol, sydd wedi'u hyfforddi'n briodol mewn rheoli ymddygiad;
- pan osodir tasgau dysgu addas i'r disgyblion sy'n ennyn eu diddordeb ac yn gweddu i'w hanghenion; a
- phan fo disgyblion yn cael eu neilltuo oddi wrth eu cymheiriaid y tu allan i amser gwers, yn ogystal ag yn ystod gwersi, fel na allant aflonyddu ar ddisgyblion eraill yn hawdd.

34 Mae ambell ysgol wedi sefydlu cyfleuster 'amser tawel' i ddisgyblion y gall fod angen iddynt 'dawelu' y tu allan i'r ystafell ddosbarth cyn bod eu hymddygiad yn aflonyddu'n ormodol ar ddysgu disgyblion eraill. Bu hyn yn effeithiol yn lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol.

35 Bu llawer o AALlau yn rhagweithiol yn sefydlu ac yn cefnogi mentrau sy'n helpu ysgolion i leihau'r angen am wahardd. Mae'r rhan fwyaf o AALlau yn lledaenu gwybodaeth ac arfer dda yn briodol, yn benodol mewn perthynas â strategaethau ymyrraeth gynnar a dewisiadau yn lle gwahardd. Mae rhai o'r AALlau hyn wedi sefydlu cynlluniau peilot effeithiol, fel grwpiau magwraeth, cynlluniau cyfiawnder adferol[13] a threfniadau cwricwlwm cyflenwol. Mae dau o'r AALlau yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg wedi datblygu cyngor a rhoi cymorth da i ysgolion mewn perthynas â rhaglenni cymorth bugeiliol. Mae'r AALlau hyn, ynghyd ag ambell un arall yr ymwelwyd â hi yn ystod yr arolwg, yn datblygu protocolau ar gyfer 'symudiadau wedi'u rheoli', ond nid oedd unrhyw un o'r protocolau hyn wedi'u cwblhau adeg yr ymweliad. Yn yr achosion prin lle bo AALlau wedi cyd-drafod symudiadau wedi'u rheoli yn lleol rhwng dwy ysgol, bu'r canlyniadau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, bu llawer o AALlau yn rhy araf yn datblygu protocolau 'symudiadau wedi'u rheoli' y gall eu holl ysgolion eu cytuno a'u gweithredu.

[12] Ystyr hyn yw pan gedwir disgyblion y tu mewn i'r ysgol ond i ffwrdd o ddisgyblion eraill.
[13] Mae'r rhain yn dod â dioddefwyr, troseddwyr a chymunedau ynghyd i benderfynu ar ymateb i drosedd benodol. Maent yn canfod atebion cadarnhaol i droseddau drwy annog troseddwyr i wynebu canlyniadau eu camau.

Llwybrau dysgu amgen

36 Mae gan lawer o ddisgyblion â'r anawsterau ymddwyn mwyaf heriol agweddau gwael at ddysgu; o ganlyniad, nid yw eu medrau llythrennedd a rhifedd wedi datblygu digon. Mae'r disgyblion hyn yn ei chael yn anodd ymdopi â'r cwricwlwm eang, seiliedig ar bynciau a gynigir i'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Mae llawer o ysgolion wedi llwyddo i wella ymddygiad drwy sefydlu llwybrau dysgu amgen i ddisgyblion sy'n ei chael yn anodd ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau arferol. Mae ysgolion yn cynnig rhywfaint o'r dysgu fel darpariaeth arwahanol ar safle'r ysgol. Mae'r darparwyr yn cynnig profiadau dysgu amgen, fel arfer ar gyfer rhan o'r wythnos ysgol, i gyflenwi darpariaeth amgen yr ysgol ei hun.

37 Mae'r ddarpariaeth amgen yn cynnwys:

- unedau cyfeirio disgyblion yn cynnig lleoliadau tymor byr;
- profiad, er enghraifft gwaith fferm, a gynigir gan ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau tebyg;
- profiad gwaith;
- prosiectau sy'n seiliedig ar y Fenter Mynediad Ieuenctid[14];
- prosiectau camddefnyddio sylweddau;
- cymorth i ddisgyblion sy'n poeni am fod yn yr ysgol ac sy'n gwrthod mynychu (diffyg presenoldeb oherwydd pryder); ac
- ystod o ddarpariaeth, gan gynnwys gwersi cartref, a gynigir drwy wasanaeth 'addysg heblaw yn yr ysgol' (EOTAS) yr AALl.

38 Mae AALlau trefol mawr yn rhoi cymorth da i ysgolion y mae angen darpariaeth amgen oddi ar y safle arnynt ar gyfer rhai o'u disgyblion. Fodd bynnag, mae gan ambell uned cyfeirio disgyblion y gallu ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer disgyblion ar leoliadau tymor byr, rhan-amser, er bod yr ymagwedd hon yn llwyddo ar y cyfan i addasu ymddygiad y disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

39 Mewn llawer o ysgolion, mae niferoedd cynyddol o ddisgyblion bellach yn anfodlon, oherwydd natur y cwricwlwm a gynigir yng nghyfnod allweddol 4. Mae llawer o'r ysgolion hyn wedi ceisio barnau disgyblion am agweddau amrywiol ar eu profiad ysgol, gan gynnwys y cwricwlwm. Mae dwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi newid eu cwricwlwm yng ngoleuni ymatebion disgyblion i arolygon o'r math hwn. Mae un ysgol yng ngogledd Cymru wedi ailstrwythuro ei chwricwlwm a system o ddewisiadau ar gyfer cyfnod allweddol 4. Mae ysgol yn ne Cymru wedi sefydlu chwe llwybr dysgu arbennig, sy'n amrywio o grwpiau magwraeth i'r disgyblion mwyaf anaeddfed yn emosiynol i ddarpariaeth arwahanol i'r disgyblion mwyaf galluog. Mae ysgol arall yn y gogledd wedi sefydlu amryw lwybrau dysgu, ac mae pob un ohonynt

[14] Sefydlwyd prosiectau'r Fenter Mynediad Ieuenctid i ddatblygu ffyrdd dychmygus o weithio gyda phobl ifanc sydd wedi'u dadrithio gyda'r ysgol.

yn cynnwys profiad gwaith yn arbennig ar gyfer anghenion y disgybl unigol. Mae ysgol yn y de yn defnyddio darpariaeth yr AALl o 'gwricwlwm cyflenwol' yng nghyfnod allweddol 4, i ddisgyblion sy'n annhebygol o ymdopi yn eu hysgol ar ôl mynychu'r uned cyfeirio disgyblion leol. Mae'r holl ddulliau hyn wedi helpu i leihau gwaharddiadau yn yr ysgolion dan sylw.

Cymorth arbenigol ychwanegol

40 Mae llawer o ysgolion, sydd â nifer fawr o ddisgyblion â phroblemau ymddwyn, wedi sicrhau cymorth ychwanegol da gan eu AALl ar y safle. Mae staff cymorth ychwanegol yn cynnwys:

- athrawon cymorth ymddygiadol;
- seicolegwyr addysgol;
- cynorthwywyr cefnogi; a
- gweithwyr ieuenctid.

41 Mae llawer o AALlau wedi sefydlu unedau arbenigol i blant ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol ar safle ysgolion â llawer o ddisgyblion â phroblemau ymddwyn. Lle bo hyn yn digwydd, gall yr ysgol gynnal gymryd mantais yn aml ar arbenigedd yr uned a'i hadnoddau eraill i gefnogi rhai o'i disgyblion ei hun nad ydynt yn mynychu'r uned yn amser llawn.

42 Mae'r cymorth ansawdd da a roir gan y staff arbenigol ychwanegol hyn yn helpu i wella ymddygiad a chwtogi ar waharddiadau.

Defnyddio data

43 Mae pob AALl yn monitro cyfraddau gwahardd yn eu hysgolion ac yn gwybod am sefyllfa'r AALl mewn perthynas â sefyllfa AALlau eraill yng Nghymru. Mae rhyw hanner o'r AALlau yr ymwelwyd â nhw yn cymharu eu cyfraddau gwahardd â chyfraddau un neu fwy AALl tebyg yng Nghymru neu Loegr. Mae AALlau yn defnyddio'r data ar gyfraddau gwahardd i dargedu ysgolion â chyfraddau gwahardd uchel dros ben ac yn blaenoriaethu cymorth arbenigol neu ychwanegol .Yn yr AALlau hynny lle bo'r cyfraddau hyn yn uchel, maent wedi llwyddo ar adegau i helpu i newid agweddau staff yr ysgol. Mewn ambell AALl, mae trafodaethau ag uwch reolwyr ysgolion wedi helpu i achosi gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau parhaol. Mewn un achos o leiaf, nid yw'r AALl wedi llwyddo i berswadio ysgol i ostwng ei chyfraddau gwahardd drwy drafodaeth am yr angen i lynu wrth arweiniad statudol. Mae hyn yn golygu bod cyfraddau gwahardd yn yr ysgol yn uchel o hyd.

Sicrhau gwelliannau pellach

44 Mae llawer o ysgolion wedi buddsoddi llawer o amser ac adnoddau mewn ystod eang o waith i wella ymddygiad disgyblion, gwella'r ffordd y rheolir ymddygiad heriol a lleihau nifer y disgyblion y maent yn eu gwahardd. Mae llawer o'u gwaith yn

dibynnu ar ddarpariaeth cymorth ychwanegol gan yr AALl. Mae llawer o'r ysgolion sydd wedi gweithio caletaf i leihau gwaharddiadau yn gallu nodi mentrau pellach i leihau gwaharddiadau. Er enghraifft, hoffai sawl ysgol ddefnyddio grwpiau magwraeth presennol ymhellach, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddisgyblion ysgol gynradd, i mewn i gyfnod allweddol 3. Yn ogystal, byddai'n fanteisiol darparu llwybrau dysgu amgen i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae llawer o ysgolion yn nodi bod angen mwy o staff cymorth arbenigol, gan gynnwys athrawon cymorth ymddygiadol. Byddai'r holl fentrau hyn yn cael effaith o ran lleihau ymhellach nifer y gwaharddiadau disgyblion.

Gweithredu'r prif newidiadau a gyflwynwyd yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 1/2004: Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

Hawl pob disgybl 11 oed neu hŷn i apelio yn erbyn gwaharddiad

45 Mae bron pob ysgol yn rhoi gwybod i ddisgyblion a rhieni am waharddiad mewn llythyr, gan egluro'r rhesymau am y gwaharddiad a'u hawl i apelio. Dim ond i rieni'r disgybl y mae un o ysgolion yr arolwg yn rhoi gwybod. Ym mwyafrif helaeth yr achosion, nid yw rhieni a disgyblion yn apelio yn erbyn y gwaharddiad. Lle cafwyd apeliadau, rhieni sydd wedi apelio ar ran eu plant fel arfer. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd wedi apelio yn erbyn eu gwaharddiad eu hunain i'r panel apeliadau annibynnol (PAA). Gall y rhan fwyaf o AALlau gynnig gwasanaeth eirioli i helpu rhieni a disgyblion gyda'r broses apelio. Fel arfer, yr AALl neu sefydliad annibynnol fel SNAP Cymru[15] sy'n rhoi'r cymorth hwn.

Darpariaeth i gael clywed barnau disgyblion

46 Mae pob ysgol ac AALl yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion a waherddir leisio eu barn. Mae rhai disgyblion wedi derbyn y cyfle hwn a mynychu'r gwrandawiadau perthnasol, tra bod eraill wedi mynegi eu barn drwy lythyrau a anfonwyd at yr ysgol neu AALl. Yn y gwrandawiadau, bu'n ddefnyddiol i lywodraethwyr ysgol ofyn cwestiynau i'r disgybl yn uniongyrchol. Mae swyddogion AALl sy'n mynychu'r gwrandawiadau yn sicrhau y caiff y disgybl y cyfle i fynegi ei farn/ei barn.

Gwaharddiadau amser cinio

47 Ychydig iawn o ysgolion sy'n gwahardd disgyblion yn ystod amser cinio. Ni chafwyd unrhyw waharddiad amser cinio yn unrhyw un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr arolwg, ac ni chafwyd un ychwaith mewn rhyw hanner o'r AALlau yr ymwelwyd â nhw. Fodd bynnag, mae pob AALl ac ysgol yn ymwybodol bod gofyn iddynt gyfrif gwaharddiadau amser cinio yn waharddiad chwarter diwrnod a bod y rhain yn cyfrif tuag at hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad. Mewn AALlau lle cafwyd gwaharddiadau amser cinio, maent wedi dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y cylchlythyr.

Gwaredu'r gofyniad am bwyllgorau disgyblu ar gyfer rhai gwaharddiadau cyfnod penodol

48 Mae ysgolion ac AALlau wedi croesawu gwaredu'r gofyniad awtomatig i bwyllgorau disgyblu gyfarfod ar gyfer gwaharddiadau rhwng 6 a 15 diwrnod. Maent yn cadarnhau bod hyn wedi lleddfu'r baich ar swyddogion AALl, penaethiaid a llywodraethwyr y byddai gofyn fel arall iddynt fynychu'r gwrandawiadau hyn.

[15] Mudiad gwirfoddol yw SNAP Cymru sy'n rhoi cyngor i rieni am anghenion arbennig.

Paneli apeliadau annibynnol (PAA)

49 Mae llawer o ysgolion ac AALlau heb gael unrhyw apêl ac felly heb gael unrhyw brofiad o baneli apeliadau annibynnol (PAA). Er hynny, mae AALlau ac ysgolion yn cefnogi'r newidiadau yng nghyfansoddiad Paneli Apeliadau Annibynnol[16]. Mae'r newidiadau hyn wedi gwneud y PAA yn addas o annibynnol ond heb gynyddu argaeledd aelodau PAA yn benodol. Mewn ambell ysgol, drwy gynnwys penaethiaid ar y paneli a rhoi hyfforddiant perthnasol i aelodau panel, cafwyd dylanwad cadarnhaol ar y paneli a sicrhawyd gwell atebolrwydd. Fodd bynnag, pryderir ychydig am allu unrhyw bennaeth ysgol a gynhelir gan yr AALl i fod yn ddiduedd. Mewn ysgolion mewn dau AALl cyfagos, mae'r trefniadau ar gyfer cynrychiolaeth drawsffiniol ar y paneli hyn yn yr AALl cyfagos yn gweithio'n dda.

Cyflwyno trydydd opsiwn ar gyfer paneli apeliadau

50 Mae'r trydydd opsiwn ar gyfer paneli apeliadau sy'n penderfynu gwyrdroi gwaharddiad ond nid adfer y disgybl i'r ysgol wreiddiol yn nodwedd dda, pan gaiff ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol. Nid oes unrhyw AALl yn adrodd anhawster sylweddol yn dod o hyd i ddarpariaeth addysg amgen addas ar gyfer disgyblion yn yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, gallai'r opsiwn hwn gyflwyno anawsterau mawr mewn rhai amgylchiadau, yn benodol os yw pellter a chost teithio i ysgol amgen yn ffactorau arwyddocaol. Mae ysgolion yn ymwybodol bod gweithredu'r opsiwn hwn yn mynnu trafod a chynllunio gofalus. Nododd un ysgol â phrofiad o dderbyn disgybl o dan yr opsiwn hwn nad oes llawer o amser weithiau i'r ysgol sy'n derbyn baratoi yn addas. Byddai'n haws gweithredu'r opsiwn hwn pe byddai trefniadau cytunedig ar gyfer symudiadau wedi'u rheoli yn yr AALl. Ychydig iawn o drefniadau fel hyn sydd ar waith ar hyn o bryd, os o gwbl.

Cyflwyno'r amod na ellir gwydroi gwaharddiadau

51 Mae'r amod na ellir gwydroi gwaharddiadau yn seiliedig yn unig ar fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad gweithdrefnol yn gam cadarnhaol ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi gwybod i'r AALl am waharddiadau gan ddefnyddio ffurflenni safonol a ddarperir gan yr AALl, fel arfer ymhen ychydig ddiwrnodau o'r gwaharddiad.

52 Mae clercod cyfarfodydd PAA fel arfer yn cael hyfforddiant perthnasol gan adran gyfreithiol yr awdurdod ac mae ganddynt wybodaeth dda am y gofynion gweithdrefnol. Maent yn rhoi cymorth cynhwysfawr, ansawdd da yn y cyfarfodydd. Mae clercod i gyrff llywodraethol ysgolion hefyd yn wybodus ac yn sicrhau bod cyfarfodydd paneli disgyblu yn dilyn y gweithdrefnau priodol. Mae hyn yn arwain at ychydig iawn o fethiant i fodloni gofynion statudol.

Arian i ddilyn disgyblion a waherddir

53 Mae arweiniad clir da wedi'i ddarparu ar gyfer y newidiadau mewn trefniadau ar gyfer arian i ddilyn disgyblion a waherddir. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi cael

[16] Mae Paneli Apeliadau Annibynnol bellach yn mynnu 3 neu 5 aelod ac yn cynnwys person lleyg, ymarferwr addysg a llywodraethwr ysgol.

problemau yn y maes hwn. Fodd bynnag, un diffyg i rai AALlau yw bod peth oedi wrth drosglwyddo'r arian i ysgolion. Un diffyg arall yw y gellir colli cyllid o'r system os nad yw disgybl a waherddir ar gofrestr ysgol adeg y cyfrifiad disgyblion blynyddol.

Newidiadau mewn trefniadau ar gyfer darparu addysg amser llawn i ddisgyblion a waherddir

54 Mae mwyafrif yr ysgolion yn sicrhau eu bod yn anfon gwaith gartref, yn aml drwy'r swyddog lles addysg, er mwyn i ddisgyblion y maent wedi'u gwahardd ei gwblhau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn dychwelyd y gwaith i'r ysgol, lle caiff ei farcio ac mae'r ysgol yn darparu gwaith pellach. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion a waherddir yn methu cwblhau'r gwaith na'i ddychwelyd i'r ysgol. Os bydd hyn yn digwydd, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn anfon unrhyw waith pellach. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn syrthio'n ôl yn eithaf sylweddol yn eu gwaith.

55 Mae pob AALl yn cynnig cymorth i ysgolion o ran darparu addysg i ddisgyblion y maent wedi'u gwahardd am gyfnod penodol, yn enwedig os nad yw'r ysgol yn gallu gwneud ei threfniadau ei hun heb gymorth. Er enghraifft, mae'r AALl yn aml yn gallu cyd-drafod a sicrhau cynnwys profiad gwaith addas yn y cynllun ar gyfer y disgybl a waharddwyd. Mae hefyd yn defnyddio'r ystod lawn o'i ddarpariaeth EOTAS.

56 Mae'r rhan fwyaf o AALlau yn gallu darparu addysg i ddisgyblion a waherddir ar ôl 15 diwrnod. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o AALlau yn ei chael yn anodd sicrhau eu bod yn cynnig y 25 awr lawn i'r disgybl. Mae sawl rheswm am hyn, gan gynnwys:

- prinder amser i baratoi a chynllunio addysg y disgybl;
- prinder cyllid;
- prinder darparwyr addas sydd ar gael;
- problemau yn mynd i mewn i gartref y disgybl;
- prinder gallu o ran darpariaeth EOTAS;
- problemau yn trefnu cludiant i'r disgybl; ac
- amharodrwydd rhai disgyblion i dderbyn y ddarpariaeth a gynigir.

57 Mae llawer o AALlau yn gweithio'n galed i sicrhau bod darpariaeth i ddisgyblion a waherddir, er nad yw efallai yn cyrraedd y 25 awr lawn yr wythnos, yn arwain at achrediad priodol, fel bod y disgybl yn sicrhau sylfaen ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a/neu gyflogaeth.